

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 16eg o Ionawr 2017 am 7pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Simon Jones, Peter Parker, Bethan Lawton, Arwel Pierce,

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Ieu Thomas
Cynghorydd Alan H. Jones
2. Datgan diddordeb: Ni fu i unrhyw Gyngorydd ddatgan diddordeb
3. Derbyn cofnodion 21 Tachwedd 2016

Croesawyd y Cadeirydd pawb i gyfarfod cyntaf y flwyddyn.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion, gyda'r Cynghorydd Peter Parker yn cynnig, a'r Cynghorydd Arwel Pierce yn eilio.

4. Cyfrifon i'w talu:

Incwm:

£600.00 Clwb Pêl-droed

Y Ganolfan	Llogi ystafell	101518	£12.00
B Gwilym	Cyflog	101519	£1,203.08
B Gwilym	Ffôn symudol	101520	£45.00
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101521	£300.60
Alan H. Jones	Trydan	101522	£80.00
Jones & Jones	Cynnal a chadw	101523	£193.80

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau uchod, gyda'r Cynghorydd Bethan Lawton yn cynnig, a'r Cynghorydd Arwel Pierce yn eilio.

5. Cais am arian - Y Groes Goch Brydeinig:

PENDERFYNIAD: I adael y cais ar y bwrdd, gyda'r Cynghorydd Bethan Lawton yn cynnig, a'r Cynghorydd Arwel Pierce yn eilio. I anfon llythyr at Mrs Jones am dderbyn anrhydedd yn ddiweddar gan y Frenhines.

6. Cyngor Cymuned Arthog - Cynigion ar gyfer Pont ar Ddyfi:

PENDERFYNIAD: I ysgrifennu llythyr yn datgan cefnogaeth Cyngor Cymuned Bryncrug i gael cylchfan, gyda'r Cynghorydd Arwel Pierce yn cynnig, a'r Cynghorydd Simon Jones yn eilio.

7. Un Llais Cymru - Modiwlau Hyfforddiant, Ionawr 2017:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

8. Cyngor Gwynedd - Archwiliad o Balmentydd y Pentref:

Adroddwyd bod swyddog o Gyngor Gwynedd wedi cynnal archwiliad o balmentydd y pentref, a nid oedd problemau hygyrchedd ar gyfer yr anabl wedi ei canfod.

Adroddodd Cynghorydd bod ceir yn parcio ger Maes y Grug, wrth ymyl Tŷ'r Gweinidog gan greu problemau i gerddwyr.

PENDERFYNIAD: I gynnal cyfarfod safle gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd, gyda'r Cynghorydd Bethan Lawton yn cynnig, a'r Cynghorydd Arwel Pierce yn eilio.

9. Cyngor Gwynedd - Baw Cŵn:

Adroddwyd bod swyddog o Gyngor Gwynedd wedi cerdded llwybrau'r pentref, gan ddod i'r casgliad mai un ci sydd yn baeddu palmentydd. Gofynnodd y swyddog i drigolion lleol gadw llygaid allan er mwyn ceisio adnabod perchennog y ci.

Adroddodd Gyngorydd bod llwybr Brynchrug i Dywyn wedi gwaethygu gyda baw cŵn a Ffordd y Felin hefyd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

10. Cyngor Gwynedd - Cefnogaeth Gorfforaethol - Sesiynau gwybodaeth er mwyn paratoi ymgeiswyr i fod yn Gynghorwyr Sir:

Sesiwn gwybodaeth yng Nghae Penarlâg, Dolgellau ar Ionawr, 18fed 2017.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

11. Cyngor Gwynedd - Etholiadau Cyngor Cymuned 2017:

PENDERFYNIAD: I roi arian yn y gyllideb tuag at costau etholiad.

12. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Plas Coch, Rhyd-yr-Onen (NP5/55/231A):

PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad. Nodwyd dymuniad y Cyngor y dylid ceisio cadw cymeriad yr adeilad, ar wyneb blaen y bwthyn.

13. Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Ymgynghoriad - Newid Enw'r Cynulliad:

PENDERFYNIAD: I beidio ymateb fel Cyngor.

14. Loriau yn parcio mewn encilfa (lay-by):

Adroddwyd gan Gyngorydd bod yr unigolyn oedd yn gyfrifol am barcio lori dros nos mewn encilfa wedi symud i ffwrdd o'r ardal. Cafwyd wybod gan Gyngorydd mai pwrpas yr encilfa ger yr Ysgol oedd er mwyn galluogi rhieni i adael/nol eu plant o'r Ysgol. Gyda'r encilfa yn parhau i gael ei ddefnyddio gan rieni wrth adael/nol eu plant o'r meithrinfa.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

15. Llwybr Cyhoeddus ger Maes Carafanau Woodlands:

Adroddwyd bod aelod o'r cyhoedd wedi tynnu sylw'r Clerc at garafán sydd wedi gosod ffens a giât ar lwybr cyhoeddus. Adroddodd Gyngorydd iddo gerdded y llwybr sydd yn arwain at Geufron, a bod y giât sydd wedi ei osod yn gwneud i'r ardd edrych fel tir preifat.

PENDERFYNIAD: I gysylltu gyda Swyddog Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn am arweiniad parthed y giât.

16. Adolygu gwariant o Ebrill 2016 i mis Rhagfyr 2016:

Dosbarthwyd taenlen yn manylu'r gwariant o Ebrill 2016 i mis Rhagfyr 2016. Nodwyd bod nifer o daliadau ar ôl i'w gwneud, sef: cyflog y Clerc, Yswiriant, Jones & Jones, BDO, ac Un Llais Cymru. Gyda amcangyfrif oddeutu £4,000 o wariant i'w wneud o mis Ionawr 2017 i ddiwedd mis Mawrth 2017.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr adolygiad o Ebrill 2016 i mis Rhagfyr 2016.

17. Gosod cyllideb ar gyfer 2017/18:

CYLLIDEB 2017/2018	
CLERC - CYFLOG	£1,200.00
CLERC - YG	£200.00
CLERC - TEITHIO	£500.00
CLERC - HYFFORDDIANT	£50.00
GWEINYDDOL - DEUNYDD SWYDDFA	£300.00
GWEINYDDOL - POSTIO	£75.00
GWEINYDDOL - LLOGI YSTAFELL	£150.00
GWEINYDDOL - FFÔN	£100.00
GWEINYDDOL - GWEFAN	£400.00
PENTREF - CYNNAL A CHADW	£1,000.00
PENTREF - BLODAU	£350.00
PENTREF - FEINCIAU	£100.00
PENTREF - LLOCHESI BWS	£250.00
PENTREF - TOILED	£2,000.00
CAE - TRYDAN	£350.00
CAE - PAFILIWN	£1,000.00
CAE - TORRI GWAIR	£1,000.00
CAE - OFFER CHWARAE NEWYDD	£0.00
CAE - CYNNAL A CHADW OFFER	£600.00
CAE - BINIAU 'SBWRIEL	£75.00
CYFRANIADAU A.137	£500.00
CORFFORAETHOL - UN LLAIS CYMRU	£110.00
CORFFORAETHOL - YSWIRIANT	£600.00
CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD MEWNOL	£60.00
CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD ALLANOL	£250.00
AELODAU - ETHOLIAD	£1,000.00
AELODAU - HYFFORDDIANT	£200.00
AELODAU - COSTAU TEITHIO	£100.00
AELODAU - LWFANS	£0.00
AELODAU - LWFANS GOFALU	£0.00
SEFYLLFA ANARFEROL	£0.00
CYFANSWM	£12,520.00

PENDERFYNIAD: I osod cyllideb o £12,520 ar gyfer 2017/18.

18. Gosod y bresept ar gyfer 2017/18:

PENDERFYNIAD: Mewn ymateb i'r holiadur, i gynyddu'r bresept yn 2017/18 er mwyn cadw'r toiled cyhoeddus ar agor, i gynnal llwybrau cyhoeddus, i gynnal y pentref a'r cae chwarae.

I osod y bresept ar gyfer 2017/18 yn £12,000, sydd yn golygu codiad o £11.46 y flwyddyn i tai ym mand D, gan ddefnyddio balansau ar gyfer y diffyg, gyda'r Cynghorydd Arwel Pierce yn cynnig a'r Cynghorydd Bethan Lawton yn eilio.

19. Penodi Archwiliwr Mewnol ar gyfer 2016/17:

PENDERFYNIAD: I benodi Mr J Roberts fel Archwiliwr Mewnol ar yr un pris ar arfer. I ysgrifennu llythyr yn penodi Mr Roberts fel Archwiliwr Mewnol y Cyngor ar gyfer 2016/17.

20. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nodwyd y canlynol:

- Pyst wedi torri
- Bin wrth y giât yn llawn baw ci, wedi symud y bin.

PENDERFYNIAD: I ofyn wrth y Clwb Pêl-droed sut maent am gyfrannu tuag at costau cynnal a chadw'r cae, gan ofyn am ddiweddariad ynglŷn a'u sefyllfa ariannol a'u hysbysu bod y "dug-outs" angen eu atgyweirio.

21. Cae Chwarae - Trefniadau torri gwair yn 2017:

PENDERFYNIAD: I adael tan mis Chwefror 2017.

22. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

- bod BT yn cynnal ymgynghoriad ynglŷn a chau bythod teleffon.
- seminar ar y sefyllfa ariannol yn cael ei gynnal o fewn y pythefnos nesaf.

PENDERFYNIAD: I anfon llythyr at Cyngor Gwynedd yn datgan gwrthwynebiad Cyngor Cymuned Brynchrug i gau bythod teleffon fel yr un yn Nolgoch, sydd o fewn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

23. Contract Cyflogaeth i'r Clerc:

Yr oedd templed wedi ei dderbyn gan Un Llais Cymru.

PENDERFYNIAD: Y Clerc a'r Cadeirydd i'w gwblhau.

24. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd gŵyl banc yn disgyn ar y trydydd Dydd Llun ym mis Ebrill, sef noson cyfarfod y Cyngor.

PENDERFYNIAD: I gynnal cyfarfod y Cyngor ar y pedwerydd dydd Llun, sef Ebrill 24ain 2017.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:37pm

Llofnod y Cadeirydd